OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2007 Rhif 1049 (Cy.107)

COMISIYNYDD PLANT,CYMRU

Rheoliadau Comisiynydd Plant Cymru (Penodi) (Diwygio) 2007

Wedi'u gwneud - - 27 Mawrth 2007

Yn dod i rym - - 1 Ebrill 2007

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 118(7) o Ddeddf Safonau Gofal 2000 a pharagraff 2 o Atodlen 2 iddi(**1**).

Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Comisiynydd Plant Cymru (Penodi) (Diwygio) 2007 a deuant i rym ar 1 Ebrill 2007.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "y Comisiynydd" ("*the Commissioner*") yw Comisiynydd Plant Cymru(**2**)

ystyr "y cyfnod cychwynnol" yw ("*the initial period*") fel y'i diffinnir yn adran 161(5) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006(**3**);

ystyr "y Prif Ysgrifennydd" ("*the First Secretary*") yw'r person a etholir o dro i dro yn Brif Ysgrifennydd y Cynulliad yn unol ag adran 53(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**4**);

ystyr "y Prif Weinidog" ("*the First Minister*") yw'r person a benodi'r o dro i dro yn Brif Weinidog Cymru yn unol ag adran 46 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006;

ystyr "plant perthnasol" ("*relevant children*") yw unrhyw blant sy'n preswylio yng Nghymru sy'n cael eu dethol at ddibenion penodiad penodol—

(a) yn y fath fodd ag y gellid ei benderfynu gan y pwyllgor perthnasol yn unol â chylch gwaith y pwyllgor, neu

(b) yn absenoldeb penderfyniad o'r fath, yn y fath fodd ag y caiff y Prif Ysgrifennydd ei benderfynu;

ystyr "pwyllgor perthnasol" ("*relevant committee*") yw unrhyw bwyllgor y gellid ei sefydlu gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dro i dro o dan adran 54(1)(b) o Ddeddf Llywodraeth

(**1**) 2000 p.14
(**2**) Sefydliwyd Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru gan adran 72(1) o Ddeddf Safonau Gofal 2000
(**3**) 2006 p.32
(**4**) 1998 p.38

Cymru 1998 er mwyn darparu cyngor a phenderfynu materion sy'n berthnasol i benodi'r Comisiynydd.

(4) Yn y Rheoliadau hyn mae cyfeiriad —

(a) at reoliad â rhif yn gyfeiriad at y rheoliad yn y Rheoliadau hyn sy'n dwyn y rhif hwnnw;

(b) mewn rheoliad at baragraff â rhif, yn gyfeiriad at y paragraff yn y rheoliad hwnnw sy'n dwyn y rhif hwnnw.

Diwygio Rheoliadau Comisiynydd Plant Cymru (Penodi) 2000

2. Diwygier Rheoliadau Comisiynydd Plant Cymru (Penodi) 2000(**5**) yn unol â rheoliadau 3 i 6 o'r Rheoliadau hyn.

3. Yn rheoliad 1(2), yn yr adran ddehongli, ychwaneger y diffiniadau canlynol yn y lle priodol yn ôl trefn yr wyddor:—

"ystyr "y Prif Weinidog" ("*the First Minister*") yw'r person a benodi'r o dro i dro yn Brif Weinidog Cymru yn unol ag adran 46(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006(**6**);"

ystyr "y cyfnod cychwynnol" yw "*the initial period*" fel y'i diffinnir yn adran 161(5) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

4. Rhodder y rheoliad canlynol yn lle rheoliad 2:—

"**Penodi'r Comisiynydd**

2.—(1) Hyd at ddiwedd y cyfnod cychwynnol caiff y Comisiynydd ei benodi gan y Prif Ysgrifennydd.

(2) Dim ond ar ôl cymryd y canlynol i ystyriaeth y caiff y Comiiynydd ei benodi o dan baragraff (1)—

(a) cyngor pwyllgor perthansol,

(b) barn plant perthnasol ynghylch unrhyw ymgeiswyr a gaiff eu cyfweld ar gyfer y penodiad, ac

(c) cyngor unrhyw banel dewis, a sefydlwyd er mwyn cyfweld ymgeiswyr, ynghylch eu priodoldeb ar gyfer y penodiad.

(3) Ar ôl diwedd y cyfnod cychwynnool, caiff y Comisiynydd ei benodi gan y Prif Weinidog.

(4) Ni ellir penodi'r Comisiynydd o dan baragraff (3) ond ar ôl cymryd y canlynol i ystyriaeth—

(a) barn y plant perthnasol am unryw ymgeiswyr y cyfwelir ar gyfer y penodiad, a

(b) cyngor unrhyw banel dewis, a sefydlwyd at ddiben cyfweld ag ymgeiswyr ynghylch eu priodoldeb ar gyfer y penodiad.

(5) Yn ddarostyngedig i reoliad 3, cyfnod swydd y Comisiynydd a benodir o dan y Rheoliadua hyn yw saith mlynedd.

(6) Ni fydd y Comisiynydd yn gymwys i gael ei ailbenodi pan ddaw cyfnod y swydd i ben neu os terfynir hi cyn hynny."

5. Rhodder y rheoliad canlynol yn lle rheoliad 3:—

(**5**) 2000/3121 (Cy.199)
(**6**) 2006 p.32